# Y Pwyllgor Menter, Arloesi a Rhwydweithiau

## EIN(2) 01- 06(p.7)

### Dyddiad 3 Mai 2006
### Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 2, y Senedd, Bae Caerdydd
### Teitl: Drafft o Adroddiad Blynyddol 2005-6

#### Diben y Papur

1. Gwahodd barn y Pwyllgor ar y copi drafft cysylltiedig o'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2004-5.

#### Cefndir

2. Yn ôl rheol sefydlog 9.9, mae'n ofynnol i Bwyllgorau Pwnc roi adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar eu cynnydd wrth iddynt gyflawni eu blaenraglen waith. Mae'r drafft cysylltiedig yn cwmpasu gwaith y Pwyllgor o fis Ebrill 2005 hyd at fis Mawrth 2006.

#### Camau Gweithredu

3. Gwahoddir Aelodau i roi sylwadau ar yr adroddiad drafft cysylltiedig a chynnig gwelliannau i'w cynnwys ynddo.

**Chris Gwyther**
**Cadeirydd**

# Y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

## Adroddiad o dan Reol Sefydlog 9.9: Mis Ebrill 2005 tan fis Mawrth 2006

#### Rhagarweiniad

1. Un o saith pwyllgor pwnc y Cynulliad yw'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei wneud o dan Reol Sefydlog 9.9 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r pwyllgorau pwnc roi adroddiad i'r Cynulliad o bryd i'w gilydd ar hynt y gwaith o weithredu eu blaenraglen waith. Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â gweithgareddau'r Pwyllgor o fis Ebrill 2005 hyd at ddiwedd tymor y gwanwyn 2006.

## Aelodau’r Pwyllgor

2. Dyma aelodau'r Pwyllgor ar hyn o bryd: Chris Gwyther (Cadeirydd), Leighton Andrews, Alun Cairns, Andrew Davies (y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth), Janet Davies, Alun Ffred Jones, Carl Sargeant a Kirsty Williams.

3. Roedd Tamsin Dunwoody, Lisa Francis ac Elin Jones hefyd yn aelodau o'r pwyllgor fis Ebrill 2005 tan 25 Ionawr 2006.

## Cylch Gwaith y Pwyllgor

4. Mae cylch gwaith y Pwyllgor wedi'i seilio ar bortffolio'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, sef:

- Arloesi a mentergarwch
- Polisi diwydiannol a chymorth i fusnes.
- Mewnfuddsoddi, hyrwyddo cwmnïau cynhenid a datblygu rhanbarthol.
- Trafnidiaeth.
- Ynni.
- Twristiaeth.
- Cyfrifoldeb strategol dros gydgysylltu TGCh.
- Cronfeydd Strwythurol.

5. Mae hyn yn cynnwys goruchwylio Awdurdod Datblygu Cymru (WDA) a Bwrdd Croeso Cymru.

## Blaenoriaethau'r Pwyllgor.

6. Amlinellwyd blaenoriaethau'r Pwyllgor yn ei Flaenraglen Waith y cytunwyd arnynt yn ei gyfarfod ar 14 Gorffennaf 2005.

## Cyfarfodydd a gynhaliwyd

7. Cynhaliodd y Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth 18 cyfarfod ffurfiol yn 2005-06. Yr oedd yr holl gyfarfodydd yn agored i’r cyhoedd.

8. Ym Mai 2005 cyfarfu’r Pwyllgor ym Mhowys i drafod economi Canolbarth Cymru. Clywodd y Pwyllgor safbwyntiau cyrff y sector gyhoeddus yn yr ardal ar faterion sy’n wynebu’r economi’n gyffredinol; yna trafododd faterion sy’n wynebu’r sector weithgynhyrchu gyda chynrychiolwyr o gwmniau lleol. Cyflwynwyd adroddiad oedd yn amlinellu canfyddiadau’r Pwyllgor i’r Gweinidog Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth yn dilyn y cyfarfod.

## Y Gwaith a’r hyn a gyflawnwyd

**Rheol Sefydlog 9.7 (i) - cyfrannu at ddatblygu polisïau'r Cynulliad o fewn y meysydd y mae Gweinidog y Cynulliad perthnasol yn atebol i'r Cynulliad amdanynt;**

9. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Anweithgarwch Economaidd yn Ebrill 2005. Dechreuodd ar ei adolygiad yn Rhagfyr 2003 a derbyniodd dystiolaeth gan awdurdodau lleol, sefydliadau adfywio cymunedol, darparwyr hyfforddiant ac undebau llafur yn ogystal âg ymweld â phrosiectau. Cydnabu'r Pwyllgor fod problem anweithgarwch economaidd yng Nghymru yn un gymhleth, a 'roedd yn awyddus iawn i wneud adolygiad a fyddai'n arwain at weithredu cadarnhaol. O ganlyniad, tra'i fod ar y dechrau yn ceisio safbwyntiau eang, dewisodd ganolbwyntio ei brif sylw ar rai materion allweddol. Cyflwynwyd cyfanswm o 26 argymhelliad a derbyniwyd y cyfan ond un gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

10. Dechreuodd y Pwyllgor gymryd tystiolaeth lafar ar gyfer ei adolygiad o'r polisi gwyddoniaeth yng Nghymru yn Hydref 2005. Fe wnaethant benderfynu gwneud yr adolygiad gan fod gwariant ar wyddoniaeth yng Nghymru gam ar ei hôl hi o gymharu â gweddill y DU, a thra fod gan Gymru bolisiau datblygiedig iawn i hybu menter, yr oedd y rhain yn gyfyngedig o ran eu gwerth os nad oedd sylfaen wyddonol gadarn iddynt. Gan fod hwn yn fater cymhleth ac arwyddocaol ac yn un o bwys mawr i Gymru, penderfynodd y Pwyllgor benodi'r Dr Robin Fears fel cynghorydd arbenigol i'r adolygiad, a chafodd gymorth 'Grwp Cyfeirio' o gynrychiolwyr o nifer fach o sefydliadau allanol i gynghori ar Gylchoedd Gorchwyl ac i adnabod sefydliadau i roi tystiolaeth lafar. Ymgymerwyd âg ymgynghoriad ysgrifenedig rhwng Awst a Medi 2005 a gorffennodd y Pwyllgor glywed tystiolaeth lafar ym mis Mawrth. Mae'r adroddiad terfynol i gael ei gyhoeddi yn yr haf.

11. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi trafod a rhoi sylwadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar nifer o faterion economaidd sy'n cynnwys: y Map Llwybr Ynni; Cymru: Economi sy'n Ffynnu; a'r Canllawiau Cymorth Rhanbarthol.

**Rheol Sefydlog 9.7(ii) - (ii) cadw llygad ar y gwariant a'r weinyddiaeth sy'n gysylltiedig â'u gweithredu.**

Craffu'n Rheolaidd ar y Gweinidog

12. Mae'r Pwyllgor yn craffu'n rheolaidd ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth sydd wedi cyflwyno adroddiad ysgrifenedig ym mhob prif gyfarfod, yn rhoi manylion y datblygiadau diweddaraf yn y maes y mae'n gyfrifol amdano. Treuliwyd cryn dipyn o amser yn y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd yn trafod yr adroddiadau hyn.

13. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cael adroddiadau rheolaidd sy'n dadansoddi'r economi ar ffurf Adroddiad Economaidd Chwarterol Cymru a'r Bwletin Ystadegol Chwarterol, ynghyd ag adroddiad chwarterol ar y ffordd y mae'r cynllun Cymorth Rhanbarthol Dewisol yn cael ei weithredu.

14. Mae elfen o graffu hefyd yn y trafodaethau ar yr amryfal faterion polisi y cyfeirir atynt uchod sy'n ymwneud â datblygu polisi. Ni chafodd y rhain eu crybwyll ar wahân yma.

**Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd**

15. Mae sicrhau bod Cymru yn cael y manteision mwyaf posibl o raglenni Cronfeydd Strwythurol Ewropeaidd yn parhau i fod yn un o flaenoriaethau'r Pwyllgor. Bydd yn cynnal trafodaethau rheolaidd ynghylch y rhaglenni hyn gyda'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, yn ogystal â chael adroddiadau chwarterol yn rheolaidd gan Brif Weithredwr Swyddfa Cyllido Ewropeaidd Cymru a chan Gadeiryddion Pwyllgorau Monitro'r Rhaglenni.

16. Mae dyfodol y cronfeydd hyn wedi 2006 hefyd yn destun pryder i'r Pwyllgor ac mae wedi trafod safbwynt Llywodraeth y Cynulliad a Llywodraeth y DU ar hyn yn rheolaidd.

## Rheol Sefydlog 9.7(iii) - cadw llygad ar waith cyflawni'r swyddogaethau cyhoeddus yn y meysydd hynny gan gyrff cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat:

17. Mae'r Pwyllgor yn cael adroddiadau rheolaidd gan Gadeirydd a Phrif Weithredwyr Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru ac yn cynnal trafodaethau â nhw. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried cynlluniau strategol y ddau gorff hwn yn ogystal â blaenoriaethau'r Gweinidog ar gyfer eu cynlluniau busnes, ac wedi rhoi sylwadau arnynt.

18. Yn dilyn cyhoeddiad Prif Weinidog Cymru i uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru ar 14 Gorffennaf 2004, mae'r Pwyllgor wedi craffu'n rheolaidd ar waith y Gweinidog o ran y dewisiadau ar gyfer y trefniadau yn dilyn yr uno yn ogystal ag ar y pwerau a'r prosesau cyfreithiol gofynnol. Mae'r Pwyllgor wedi cynnal trafodaethau'n rheolaidd ynghylch yr angen i waith y ddau gorff barhau i ganolbwyntio ar gwsmeriaid a diwallu anghenion busnesau yng Nghymru. Maent hefyd wedi manylu ar nifer o faterion yn ymwneud â throsglwyddo staff ac amodau a thelerau gwaith yn ogystal â chost yr uno a chynnal y cynlluniau pensiwn presennol i Lywodraeth y Cynulliad. Hefyd cyfarfu'r Pwyllgor â'r Undebau Llafur sy'n cynrychioli'r staff y bydd yr uno'n effeithio arnynt yn ogystal â'r CBI a'r CLlLC.

19. Ym Mehefin 2005 cyfarfu'r Pwyllgor gyda chynrychiolwyr o'r Adran Drafnidiaeth i drafod y broses rhoi Masnachfraint y 'Great Western'. Yr oedd y Pwyllgor yn bryderus nad oedd ymgynghori wedi bod gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru cyn cyhoeddi'r ddogfen Gwahoddiad i Dendro a theimlent nad oedd yn adlewyrchu polis?au Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer datblygu'r gwasanaethau rheilffyrdd yn Ne Cymru, o gofio fod dros 60 y cant o'r defnydd yn yr oriau brig rhwng Abertawe a Chaerdydd yn cael ei ddarparu gan drwydded y Great Western. Ysgrifennodd y Cadeirydd at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Drafnidiaeth yn amlinellu pryderon y Pwyllgor.

## Rheol Sefydlog 9.8 – cyfrifoldebau eraill

## Deddfwriaeth

20. Mae'r Pwyllgor yn derbyn yn rheolaidd restr o is-ddeddfwriaethau a gynigir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, o'r hwn y mae Aelodau'n nodi unrhyw eitemau maent hwy'n ystyried ddylai gael eu craffu gan y Pwyllgor, ac mae wedi craffu nifer o eitemau o is-ddeddfwriaeth eleni, yn bennaf yn ymwneud âg uno Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

21. Cyfeiriwyd pedwar Mesur i'r Pwyllgor yn dilyn y ddadl Cyfarfod Llawn ym Mehefin ar araith y Frenhines i'r Senedd. Yr oedd y Pwyllgor eisoes wedi craffu'n helaeth ar y Mesur Trafnidiaeth (Cymru) Drafft mewn cydweithrediad â'r Pwyllgor Materion Cymreig ac wedi cynhyrchu adroddiad ffurfiol ar eu casgliadau ym mis Gorffennaf 2004. Cafodd y cymalau oedd yn cyfeirio at y rheilffyrdd yng Nghymru eu tynnu allan o'r Mesur Trafnidiaeth (Cymru) wedyn yn dilyn cyhoeddiad am gynlluniau Llywodraeth y DU i ad-drefnu'r rheilffyrdd a chyhoeddi'r Ddeddf Rheilffyrdd 2005. Gan nad oedd unrhyw newidiadau pellach i'r Mesur nid oedd gan y Pwyllgor ddim i'w ychwanegu at ei adroddiad gwreiddiol.

22. Ystyriwyd y Mesur Diogelwch y Ffyrdd gan y Pwyllgor ar 28 Medi 2005 a rhoddwyd adroddiad gerbron y Cynulliad ar 14 Hydref.

23. Mewn Datganiad Cabinet yn Ionawr 2006 cyhoeddodd y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth fod y Mesur Llety Twristiaeth (Cymru) wedi'i dynnu'n ôl. Byddai cynigion yn cael eu dwyn ymlaen yng nghyd-destun Mesur Llywodraeth Cymru, unwaith fod cwblhau ei hynt trwy'r Senedd.

24. Ystyrioddd y Pwyllgor y Mesur Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol ar 16 Mawrth. Cododd Aelodau nifer o bryderon, yn arbennig gyda golwg ar ystod pwerau'r Mesur mewn cydweithrediad â Mesur Llywodraeth Cymru, a gofyn am gyfle i graffu ymhellach. Mae hyn i ddigwydd ar 3 Mai.

25. Mae'r Pwyllgor wedi treulio mwy a mwy o amser yn ystyried deddfwriaethau Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru o fewn y portffolio Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Hyd yma mae'r Pwyllgor wedi ystyried a rhoi ei sylwadau ar y Map Ffyrdd Cymorth Gwladwriaethol; y Papur Gwyrdd ar Effeithlonrwydd Ynni a'r Gyfarwyddeb ddiwygiedig 'Teledu heb Ffiniau'. Yn Ionawr 2006 dynododd y Pwyllgor flaenoriaethau ar gyfer craffu pellach o raglen waith flynyddol y Comisiwn Ewropeaidd. Bydd y rhain yn cael eu corffori yn eu rhaglen waith ar yr amser priodol.

## Y Gyllideb Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

26. Mae Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth wedi bod â rhan amlwg yn gosod blaenoriaethau ar gyfer cyllideb datblygu economaidd a thrafnidiaeth y Cynulliad bob blwyddyn a gwneud sylw ar gynigion y Gweinidog ar gyfer y gyllideb ar gyfer 2005-06.

## Penodiadau Cyhoeddus

27. Chris Gwyther a Janet Davies fu'r rhai a enwebwyd gan y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus.

28. Ym Mawrth 2006 pasiwyd cynnig yn y Cyfarfod Llawn oedd yn dirprwyo penodiad Aelod o'r Cynulliad Cenedlaethol i'r Cyngor Teithwyr Rheilffyrdd i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth. Cytunodd y Pwyllgor wedyn i ddirprwyo'r penderfyniad i is-bwyllgor Datblygu Economaidd a Thrafnidiaeth, sy'n cynnwys dau Aelod sy'n rhai a enwebwyd gan y Pwyllgor ar gyfer penodiadau cyhoeddus. Mae'r is-bwyllgor i gyfarfod ym mis Ebrill.

**Chris Gwyther**
**Cadeirydd**